# Teitl swydd: Cydlynydd Gwirfoddolwyr

## Prif ddiben

Cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu'r cyfleoedd gwirfoddoli o fewn prosiectau Sir Gaerfyrddin, i gefnogi gwirfoddolwyr newydd a phresennol. Rheoli'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr newydd a goruchwylio eu cefnogaeth a'u goruchwyliaeth. Gweithio gyda chydweithwyr ar draws Sir Gaerfyrddin i bennu anghenion prosiectau a dod o hyd i leoliadau addas i wirfoddolwyr. Nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu addas ar gyfer gwirfoddolwyr newydd a phresennol. Ymgorffori gwirfoddoli'n llawn o fewn y sefydliad drwy adolygu'r systemau presennol i sicrhau bod cyfleoedd mor hygyrch â phosibl a bod dull clir a chyson o ran gwirfoddoli ar draws y prosiectau. I weithio tuag at ac ennill achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo ethos trugarog Plant Dewi, sy'n seiliedig ar ei gwerthoedd Cristnogol o ddangos cariad, caredigrwydd a lletygarwch i bobl sydd mewn angen, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn unol ag egwyddorion cyfle cyfartal.

## Safle o fewn y sefydliad

Ymddiriedolwyr
Reolwr Plant Dewi
Cydlynydd Gwirfoddolwyr

## Prif ddyletswyddau:

Cydlynu cyfleoedd gwirfoddoli

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Sir Gaerfyrddin i bennu anghenion y prosiectau a nodi cyfleoedd gwirfoddoli
- Datblygu lleoliadau gwirfoddoli priodol

Recriwtio gwirfoddolwyr

- Hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli
- Hyrwyddo cyfleoedd i sefydliadau allanol a chymdeithasau gwirfoddol
- Derbyn ceisiadau
- Rheoli'r broses ddethol
- Cynnal gwiriadau cefndir a gwiriadau GDG

Trefnu hyfforddiant a chymorth

- Cyflwyno gwirfoddolwyr i aelodau allweddol o staff
- Dod o hyd i fentoriaid priodol
- Cefnogi'r rhaglen sefydlu i wirfoddolwyr gan asesu anghenion hyfforddi.
- Dod o hyd i hyfforddiant perthnasol a'i drefnu

Cefnogi gwirfoddolwyr

- Cyfarfod nawr ac yn y man gyda gwirfoddolwyr
- Gwerthuso eu hanghenion cynnydd a hyfforddiant
- Datblygu perthynas waith dda gyda gwirfoddolwyr i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn y tîm.

Gweinyddu

- Cynnal adolygiad o'r polisi gwirfoddoli a gwaith papur cysylltiedig i sicrhau eu bod yn hawdd eu deall ac yn briodol ar gyfer pob lefel o wirfoddoli.
- Datblygu llawlyfr gwirfoddolwyr.
- Sicrhau bod unrhyw bolisïau neu weithdrefnau sy'n cael eu diweddaru yn cael eu cyfleu i'r tîm ehangach er mwyn sicrhau dull cyson o gefnogi pob gwirfoddolwr.
- I weithio tuag at ac ennill achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Cyllidebu

- Bod yn gyfrifol am reoli'r cyllidebau sy'n gysylltiedig â threuliau, digwyddiadau a hyfforddiant gwirfoddolwyr.
- Cyflwyno ffurflenni treuliau gwirfoddolwyr i'r swyddog cyllid o fewn yr amserlenni a nodwyd.
- Cyflwyno ffurflenni ar gyfer costau hyfforddiant i'r Rheolwr Prosiect eu hawdurdodi.

Gwobrau

- Cydlynu a threfnu ffyrdd o gydnabod gwirfoddolwyr am eu cyfraniad i waith y sefydliad. Rhoi tystysgrifau, sefydlu a rheoli credydau amser, trefnu digwyddiadau gwirfoddolwyr a rhoi cyhoeddusrwydd i waith gwirfoddolwyr.

## Beth gall Plant Dewi ei gynnig i chi

Mae Plant Dewi yn gwneud pob ymdrech i greu amgylchedd gwaith boddhaus. Rydym am ddenu staff ymroddedig a phrofiadol a fydd yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad i'n galluogi i adeiladu ar waith rhagorol gyda theuluoedd. Mae hwn yn gyfle i ddatblygu arferion creadigol mewn elusen ymatebol a sefydledig gan ddefnyddio sgiliau a phrofiad ein staff.

Mae Plant Dewi yn cynnig gweithle cefnogol a'r cyfle i'r person cywir wneud gwahaniaeth.

Mae'r buddiannau'n cynnwys 28 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â'r 8 diwrnod statudol. Mae Plant Dewi yn gweithredu pensiwn gweithle drwy'r Cynllun Pensiwn NEST.

Mae Plant Dewi wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Disgwyliwn i bob aelod o staff uniaethu â sail egwyddorol Gristnogol Plant Dewi. Mae Plant Dewi yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o bob ffydd a rhai heb ffydd.

Bydd angen datgeliad gan y GDG (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar gyfer y swydd.